# *Partneriaeth y Brifysgol Agored yng Nghymru*
# *Rhaglen TAR: Bwletin Ymchwil*

**Rhifyn 6: Mai 2023**

Croeso i fwletin ymchwil Rhaglen TAR. Diolch am eich adborth ar y bwletinau ymchwil hyn. Parhewch i anfon eich awgrymiadau ar bynciau sydd o ddiddordeb arbennig i chi a bydd eich lleoliad a'r eitemau perthnasol yn cael eu cynnwys mewn bwletinau yn y dyfodol.

Hefyd, os oes unrhyw ymchwil rydych chi a/neu eich lleoliad yn rhan ohono, byddem yn croesawu'r cyfle i rannu eich gweithgarwch ymchwil a chanfyddiadau ar draws y Bartneriaeth. Os ydych yn dymuno cael gwybod mwy am unrhyw un o'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y bwletinau hyn, cysylltwch ag Alison Glover (alison.glover@open.ac.uk).

## *Yn y rhifyn hwn ...........*


**Addysg Amgylcheddol a Chwricwlwm i Gymru:** Cyflwynir ymyrraeth i ddysgwyr dros gyfnod o dair blynedd. Mae gwelliannau yn hyder athrawon a disgyblion yn cael eu hadrodd.

**Gwybodaeth ac agweddau tuag at dybaco ac e-sigaréts mewn ysgolion cynradd:** canfu ymchwil ar draws pedair ysgol yng Nghymru dystiolaeth o negeseuon cymysg am e-sigaréts o gymharu â sigaréts.

Iaith Gymraeg

**Gwneud diagnosis o alluoedd ieithyddol plant dwyieithog:** Mae'n ymddangos bod profion iaith yn cael eu creu gyda uniaith mewn golwg. Mae angen datblygu arfau penodol i iaith a chyd-destun ar frys.

**Ymyrraeth dysgu proffesiynol ar gyfer addysg a gofal plentyndod cynnar:** Archwilir canfyddiadau ymarferwyr o wyddoniaeth a dylanwad hyn ar ddarpariaeth.

**Gweithredu Cwricwlwm i Gymru yn gynnar:** Mae aelodau'r tîm TAR yn gweithio gydag Ymchwil Arad i archwilio profiadau cynnar ysgolion o gyflwyno Cwricwlwm i Gymru.


### Addysg Amgylcheddol a Chwricwlwm i Gymru

*'Roedd data gwerthuso yn cefnogi'r syniad y gellid archwilio cysyniadau gwyddoniaeth mewn chwarae a gychwynnwyd gan blant.'*

Defnyddiodd astudiaeth achos ddulliau cymysg i fyfyrio ar raglen a gymhwysodd fframwaith Theori Newid *(Theory of Change)* i gynllunio dysgu ar draws chwe ysgol gynradd wledig. Mae rhaglen addysg yn cael ei chynnig gan elusen addysgiadol (Profiad Darwin) mewn ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru. Cymhwysir Dull Gallu *(Capability Approach)* hefyd; mae hyn yn ystyried mynediad at adnoddau sy'n caniatáu i ddewisiadau effeithiol gael eu gwneud. Cyflwynir yr ymyriad a ddilynir i'r un grŵp o ddysgwyr dros gyfnod o dair blynedd – roedd hyn yn cynnwys gweithgareddau paratoadol yn yr ystafell ddosbarth, taith maes, gweithdy a gweithgareddau dilynol yn yr ystafell ddosbarth. Hefyd, treuliodd 6 disgybl amser yn adran Wyddoniaeth eu hysgol uwchradd leol yn gweithio ar brosiectau ddwywaith y flwyddyn. Casglwyd data gan ddefnyddio arsylwadau, holiaduron staff a disgyblion, cyfweliadau un-i-un a chyfweliadau grŵp a dadansoddiad data cyrhaeddiad. Roedd rhai o'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys gwelliant yn hyder athrawon wrth addysgu gwyddoniaeth a hyder disgyblion yn y defnydd o offer gwyddonol, ac adroddwyd hefyd bod iaith a methodoleg yn gwella. Daethpwyd i'r casgliad bod asiantaeth athrawon yn cael ei hannog drwy gyfuno fframwaith Theori Newid â Dull Gallu.

Jones, V. (2023) 'Environmental Education and the new curriculum for Wales: an evaluation of how a family of schools in a rural area used a Theory of Change approach', *Environmental Education Research*, 29(3) pp. 392-409.

## Gwybodaeth ac agweddau tuag at dybaco ac e-sigaréts mewn ysgolion cynradd

*"Wel dywedodd fy mam wrtha'i os welwch chi rywun yn ysmygu, yna cerddwch ychydig yn gynt neu geisio dal eich anadl.'*

Mae e-sigaréts wedi cael eu hymchwilio'n bennaf mewn ysgolion uwchradd, gyda llai o ddealltwriaeth o ddatblygu agweddau ac ymddygiadau mewn oedran cynharach. Mae'r ymchwil hon yn adrodd ar gyfweliadau gyda disgyblion, rhieni, ac athrawon mewn 4 ysgol astudiaeth achos yng Nghymru (N=42). Mae canfyddiadau'n dangos bod negeseuon cyson ar ysmygu o'r ysgol a'r teulu wedi'i adlewyrchu mewn anghymeradwyaeth gref ymhlith disgyblion a dealltwriaeth glir o niwed. Roedd hyn yn llai amlwg ar gyfer e-sigaréts, lle roedd negeseuon yn gymysg ac anghyson rhwng cartrefi ac ysgol, gyda phryderon dros beth i ddweud wrth blant am e-sigaréts yn sgil negeseuon cymysg ac absenoldeb canllawiau swyddogol. Argymhellir ymchwil pellach ar ddatblygu cynnwys addysgu sy'n briodol i'w hoedran ar gyfer ysgolion. Argymhellir hefyd i ymchwilio i effaith cyfathrebu ysgol sy'n pwysleisio e-sigaréts fel cynnyrch i ysmygwyr sy'n oedolion ac sy'n anaddas i bobl sydd ddim yn ysmygu.

Brown, R., Van Godwin, J., Copeland, L., Hallingberg, B., Angel, L., MacDonald, S., Segrott, J. and Moore G. (2020) ‘Ecological Exploration of Knowledge and Attitudes Towards Tobacco and E-Cigarettes Among Primary School Children, Teachers, and Parents in Wales: A Qualitative Study’, *Tobacco Use Insights*, 13, pp. 1-12.

Iaith Gymraeg

## Gwneud diagnosis o alluoedd ieithyddol plant dwyieithog

*‘Mae angen hyfforddiant yn arbennig mewn perthynas â sut i helpu plant i ddelio â ffurfiau penodol ar yr iaith.’*

Pan fo plant yn cael eu hamau fel rhai sydd ag anawsterau iaith, maent fel arfer yn cael eu mesur am eu galluoedd gan ddefnyddio profion sy'n cymharu eu perfformiad iaith â phlant eraill sy'n datblygu'n nodweddiadol o'r un oed. Yna defnyddir canlyniadau'r profion hyn i helpu i sefydlu diagnosis, lle bo hynny'n briodol, ac i helpu datblygu rhaglen o gefnogaeth. Mae gwneud diagnosis o blant dwyieithog yn wahanol i wneud diagnosis o blant uniaith, ac eto mae'n ymddangos bod profion iaith yn cael eu creu gydag uniaith mewn golwg. Yn yr un modd, mae mesur galluoedd iaith mewn un iaith yn wahanol iawn i fesur galluoedd iaith mewn un arall oherwydd y gwahaniaethau strwythurol ar draws ieithoedd. Canolbwyntir ar alluoedd mesur darllen ac ysgrifennu, gan fod ieithoedd gwahanol yn defnyddio confensiynau ysgrifennu gwahanol. Dadleuir am hyfforddiant priodol i addysgwyr yn y maes hwn, ynghyd ag angen dybryd i ddatblygu offer sy'n benodol i iaith a chyd-destun, gyda normau siaradwr dwyieithog perthnasol, ac sydd â chymwysiadau ymarferol yn y dosbarth. Bydd hyn yn sicrhau diagnosis teg a pherthnasol a chymorth i bob plentyn sy'n cael ei addysgu yng Nghymru.

Thomas, E., Owen, C.M., Hunt, F., Young, N., Dafydd, M., Fontaine, L., Aldridge-Waddon, M., Sullivan, K., Lloyd-Williams, S.W., ap Gruffudd, G. S. and Caulfield, G. (2022) ‘Working towards diagnosing bilingual children's language abilities: issues for teachers in Wales’, *Welsh Journal of Education*, 24(2), p. 51-73.

## Ymyrraeth dysgu proffesiynol ar gyfer addysg a gofal plentyndod cynnar

*'Roedd data gwerthuso yn cefnogi'r syniad y gellid archwilio cysyniadau gwyddoniaeth mewn chwarae a gychwynnwyd gan blant.'*

Mabwysiadodd y prosiect dull cymysg ansoddol hwn batrwm deongliadol; y nod oedd gwella deall canfyddiadau ymarferwyr addysg a gofal plentyndod cynnar o wyddoniaeth a sut y gwnaeth y canfyddiadau hyn siapio darpariaeth a chefnogi datblygiad cysyniad plant. Daeth 64 o gyfranogwyr o 16 lleoliad addysg a gofal plentyndod cynnar Dechrau'n Deg mewn un Awdurdod Lleol Cymru i ddigwyddiad deuddydd 'Siarad Gwyddoniaeth'. Roedd casglu data'n cynnwys nodiadau o drafodaethau grŵp, adborth gan ymarferwyr yn ystod trafodaethau ac adborth gwerthuso am 'Siarad Gwyddoniaeth'. Roedd yn ymddangos bod y rhaglen dysgu proffesiynol trwy brofiad gyda ffocws ar wyddoniaeth mewn arfer bob dydd yn gefnogol i hyder cynyddol ymarferwyr ac ymgysylltiad dilynol â darpariaeth wyddoniaeth i blant ifanc. Mae 'Siarad Gwyddoniaeth' hefyd yn darparu model a allai fod â goblygiadau ehangach wrth ddylunio dysgu proffesiynol addysg a gofal plentyndod cynnar.

Gealy, A-M., Tinney, G., Macdonald, N. and Waters, J. (2022) A socio-constructivist approach to developing a professional learning intervention for early childhood education and care practitioners in Wales’, *Professional Development in Education*, 48(2), pp. 298-314.

## Gweithredu Cwricwlwm i Gymru yn gynnar

*'Nid yw un diwrnod ychwanegol o hyfforddiant [HMS] yn ddigon. Mae cymaint i'w wneud, ac mae cael amser i feddwl yn bwysig.'*

Mae aelodau'r tîm TAR yn gweithio gydag eraill i archwilio profiadau cynnar ysgolion o gyflwyno Cwricwlwm i Gymru. Cwblhawyd y don gyntaf o gyfweliadau gyda 64 o uwch arweinwyr yn ddiweddar. Dywedodd yr uwch arweinwyr eu bod yn fodlon ar y cynnydd yr oeddent wedi'i wneud wrth ddylunio a gweithredu eu cwricwlwm. Dywedwyd bod ymarferwyr yn cymryd mwy a mwy o gyfrifoldeb a pherchnogaeth dros weithredu'r cwricwlwm; adroddwyd bod mwy o ffocws ar addysgeg a gweithgarwch cydweithredol o fewn lleoliadau a chlystyrau. Codwyd heriau o ran capasiti staff ac amser i ddatblygu a gweithredu cwricwlwm eu lleoliad. Roedd mapio dilyniant o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad yn ffocws mewn llawer o leoliadau, gyda gweithgaredd clwstwr yn chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o ddilyniant. Fodd bynnag, mae heriau o ran rhyddhau staff i gymryd rhan mewn sesiynau cynllunio ar y cyd a gweithgarwch clwstwr. Mae adroddiad Ton 1 ar gael yma.

## Partneriaeth y Brifysgol Agored a'r BBC

Mae amrywiaeth o gynnwys ar draws teledu, radio, podlediadau, cyfryngau digidol a chymdeithasol ar gael.








Mae posteri am ddim ar gael i'w harchebu neu i'w lawrlwytho.

Mae adnoddau rhad ac am ddim ar gael o Critical Publishing. Mae'r cwmni'n cynnig deunyddiau / penodau sampl am ddim i gefnogi'r rhai sy'n gweithio yn y Blynyddoedd Cynnar, Cynradd, Uwchradd, ac Addysg Athrawon.




Oracy Cambridge: Adnoddau ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar gefnogi cyfathrebu llafar effeithiol. [Gan gynnwys llafaredd ar draws cwricwlwm Cymru].

---

Cofrestrwch i fynd i'n Cynhadledd Ymchwil ar-lein (*Ennyn diddordeb, grymuso, deddfu – sgyrsiau am addysg plant yng Nghymru*) Dydd Gwener 23 Mehefin 2023 (9.30yb-12.30yp). Bydd cyweirnod y gynhadledd yn cael ei chyflwyno gan Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru, a bydd athrawon dan hyfforddiant a staff ysgolion partner yn cyflwyno ar astudiaethau raddfa fach ac ymholiadau ysgolion. Bydd y rhaglen lawn ar gael yn fuan.